Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

**(99)**

**Dydd**

**Mawrth, 16 Tachwedd 2004**

## AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**

Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad Busnes**

Cliciwch yma i weld y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 3**
**Statement by the Minister for Health and Social Sevices on banning smoking in public places**

**Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Hynt Cynllunio: Cyflawni dros Gymru - TYNNWYD YNOL**

**Eitem 4**
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv) Reoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2004**

*NDM2168 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor y Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2004, y gosodwyd

copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2004.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cynnal yn unigol:

**(1)+(2)**
**(3)**

**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn galw ar i labeli bwyd nodi o ba wlad y mae’r bwyd yn tarddu.

**Gwelliant 2 - David Melding (Canol De Cymru)**

Yn galw ar i labeli bwyd nodi’r halen a’r siwgr sydd wedi’i gynnwys.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am labelu cynnyrch sy'n gysylltiedig â GM yn fwy llym ac eglur, ac yn benodol, dylai cig a chynnyrch eraill o anifeiliaid a besgwyd ar borthiant GM gael eu labelu a dylid lleihau'r trothwy ar gyfer halogiad GM mewn cynnyrch nad yw'n gynnyrch GM i 0.1%.

*NDM2169 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2004.

*I'w nodi: Nid oes Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau wedi'i osod mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

Cliciwch yma i weld Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2004

**Eitem 5**
**Cynnig i drafod yr hysbysiad o anfodlonrwydd â chynnig y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i wneud Lwfans Cynhaliaeth Addysg – Cynllun Cymru**
*NDM2144*

Peter Black (Gorllewin De Cymru)
Mike German (Dwyrain De Cymru)
Janet Ryder (Gogledd Cymru)
Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)

Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru)
Jenny Randerson (Canol Caerdydd)
Leanne Wood (Canol De Cymru)
Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)
David Davies (Mynwy)
David Melding (Canol De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.5:

1. Yn mynegi ei anfodlonrwydd â chynnig y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 27 Hydref 2004, i wneud "Lwfans Cynhaliaeth Addysg - Cynllun Cymru"; a

2. Yn penderfynu y bydd Rheolau Sefydlog 24.6 i 24.25 yn gymwys wrth wneud y Gorchymyn hwn.

Cliciwch yma i weld gwybodaeth i gefnogi'r ddadl ar y cynnig o anfodlonrwydd. - *Ni chyflwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

Eitem 6
Dadl wedi'i henwebu gan y Democratiaid Rhyddfrydol
*NDM2167 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)*
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn credu na ddylai swyddogaethau Cyngor Celfyddydau Cymru gael eu rhoi dan reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:
**(1)**
**(2)**

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Dileu'r cyfan ac yn ei le rhoi:
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn credu na ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd rheolaeth uniongyrchol dros Gyngor Celfyddydau Cymru.

Gwelliant 2 - Karen Sinclair (De Clwyd)
Dileu popeth ar ôl "credu" ac ychwanegu:
y dylai swyddogaethau Cyngor Celfyddydau Cymru gael eu hystyried yng nghyd-destun y datganiad y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu ei wneud ar yr adolygiad o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

Eitem 7
Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru
*NDM2170 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn nodi bod adroddiad blynyddol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru am y cyfnod 2003-2004 wedi'i

gyhoeddi a bod copi ohono wedi'i anfon at yr Aelodau dros yr e-bost ar 9 Tachwedd 2004.

Cliciwch yma i weld y adroddiad blynyddol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru am y cyfnod 2003-2004 - *Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr.*

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:

**(1)**
**(2)**
**(3)+(4)+(5)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth cartrefi gofal ar gyfer yr henoed a'r rhai sy'n fregus eu meddwl, a'r diffygion yn y gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a'r rhai yn eu glasoed.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i newid y gyfundrefn arolygu gwasanaethau gofal plant yn ystod y dydd er mwyn dileu'r arfer o roi rhybudd cyn cynnal arolygiad ac eithrio yn achos gwarchodwyr plant lle y dylid rhoi cyfnod byr o rybudd.

**Gwelliant 3 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru i gymhwyso amrywiadau priodol i'r Safonau Gofal Gofynnol, gan gynnwys Safon 18, ar gyfer unedau preswyl ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau.

*Caiff Safon 18 ei gynnwys yn adroddiad y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hy^n y gellir dod o hyd iddo yn:*

*http://www.wales.gov.uk/subisocialpolicy/content/guidance/nmscarehomes-oldpeople-e.pdf*

- *Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr.*

**Gwelliant 4 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru i gymhwyso amrywiadau priodol i Safon Gofal Gofynnol 37.3.

*Caiff Safon 37.3 ei gynnwys yn adroddiad y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hy^n y gellir dod o hyd iddo yn:*

*http://www.wales.gov.uk/subisocialpolicy/content/guidance/nmscarehomes-oldpeople-e.pdf*

*- Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr.*

**Gwelliant 5 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn pryderu am y gostyngiad parhaus yn nifer y cartrefi gofal a'r lleoedd mewn cartrefi gofal sydd ar gael o dan Lywodraeth bresennol y Cynulliad.

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**…………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd**

**Mercher, 17 Tachwedd 2004**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**